Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 Rhif 1327 (Cy. 268)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi eu Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) (Diwygio) 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) 2004 (O.S. 2004/314 (Cy. 32)) ("Rheoliadau 2004"), sy'n gwahardd gwerthu bwydydd proses sydd wedi eu seilio ar rawn a bwydydd babanod ar gyfer babanod a phlant ifanc, oni bai eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion o ran gweithgynhyrchu, cyfansoddiad a labelu a nodir yn y Rheoliadau hynny.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 4 i Reoliadau 2004 i ganiatáu ychwanegu calsiwm-L-methylffolad, bisglycinad fferrus a zinc clorid wrth weithgynhyrchu bwydydd proses sydd wedi eu seilio ar rawn a bwydydd babanod. Mae'r diwygiadau i Atodlen 4 hefyd yn dod â'r sylweddau maethol hynny o fewn cwmpas y gofynion labelu a nodir yn rheoliad 8(2) a (3) o Reoliadau 2004.

Ystyriwyd cod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2022 Rhif 1327 (Cy. 268)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi eu Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) (Diwygio) 2022

Gwnaed *14 Rhagfyr 2022*

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru *15 Rhagfyr 2022*

Yn dod i rym *18 Ionawr 2023*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(a) ac (e) ac 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**3**).

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod

(**1**) 1990 p. 16. Diwygiwyd adrannau 16(1) ac 48(1) gan adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) ("Deddf 1999") a pharagraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 iddi. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Rhoddwyd y swyddogaethau hynny a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan adran 40(1) o Ddeddf 1999 a pharagraff 21 o Atodlen 5 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**1**).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi eu Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) (Diwygio) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 18 Ionawr 2023.

Diwygiadau i Reoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) 2004

2.—(1) Mae Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) 2004(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 4 (sylweddau maethol)—

(a) ym mharagraff 1 (fitaminau) ar ôl "Asid ffolig" mewnosoder "Calsiwm-L-methylffolad"; a

(b) ym mharagraff 4 (halwynau mwynau ac elfennau hybrin)—

(i) ar ôl "Carbonad fferrus" mewnosoder "Bisglycinad fferrus"; a

(ii) ar ôl "Zinc asetad" mewnosoder "Zinc clorid".

Lynne Neagle
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
14 Rhagfyr 2022

(**1**) EUR 2002/178. Mae Erthygl 9 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori'n agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd, yn uniongyrchol neu drwy gyrff cynrychioliadol, wrth lunio, gwerthuso a diwygio cyfraith bwyd, ac eithrio pan na fo brys y mater yn caniatáu hynny. Mae diwygiadau eraill i'r Rheoliad hwn nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2004/314 (Cy. 32); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2005/3254 (Cy. 247), O.S. 2007/2753 (Cy. 232), O.S. 2014/2303 (Cy. 227), O.S. 2016/639 (Cy. 175) ac O.S. 2018/806 (Cy. 162).